Y Gwasanaeth Cymorth a Chyswllt Cleifion

PALS

Fel claf, perthynas neu ofalwr, weithiau bydd angen i chi droi at rywun am gymorth neu gyngor yn y fan a'r lle. Fel arall, bydd hyn ar gael gan y meddygon, y nyrsys a'r therapyddion sy'n eich trin chi neu'n trin yr unigolyn rydych chi'n ei gynrychioli.

Weithiau fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen Tîm PALS arnoch chi i ddarparu cyngor a chymorth cyfrinachol a diduedd.

Nod y gwasanaeth yw:

- Rhoi cyngor a chymorth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- Darparu gwybodaeth am wasanaeth y GIG
- Gwrando ar eich pryderon, eich awgrymiadau neu eich ymholiadau
- Helpu i ddatrys problemau'n gyflym ar eich rhan
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn dysgu o'ch profiad

Gallwn ni weithio gyda'r staff, gyda rheolwyr a, phan fydd hynny'n briodol, gyda sefydliadau perthnasol er mwyn helpu i ddatrys problemau'n gyflym ar eich rhan.

Sut ydw i'n gallu cysylltu â PALS?

Ysbyty'r Tywysog Siarl – ☎ 01685 724468
E-bost: CTM.MerthyrCynonILG.Governance@wales.nhs.uk

Ysbyty Tywysoges Cymru – ☎ 01656 754194
E-bost: CTM.BridgendILGPALS@wales.nhs.uk

Ysbyty Brenhinol Morgannwg – ☎ 07867 208514
E-bost: CTM.RhonddaTaffElyILG.Governance@wales.nhs.uk